# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2324 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 10/12/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5601 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5602 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, L. Elias, C. Meredith, a S. Thomas. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5603 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5604 |
| Item Title | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5677 |
| Item Title | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5708 |
| Item Title | Monitro Perfformiad Chwarterol Strategaeth Cyfathrebu (Gorffennaf – Medi 2021) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid a gyflwynwyd i roi diweddariad chwarter 2 (Gorffennaf i Medi 2021) o gymharu â'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod y Pwyllgor yn ystyried diweddariad cynnydd chwarter 2 o gymharu â'r Strategaeth Cyfathrebu, cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5709 |
| Item Title | Monitro Perfformiad Chwarterol Strategaeth Fasnachol (Gorffennaf – Medi 2021) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid a gyflwynwyd i roi diweddariad cynnydd chwarter 2 (Gorffennaf i Medi 2021) o gymharu â'r Strategaeth Fasnachol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am ystafelloedd trafod preifat o fewn hybiau, dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y cafodd hyn ei drin a bod ardal o fewn y llyfrgelloedd a gafodd ei neilltuo o ofod cyffredinol ar gyfer y cyhoedd i'w ddefnyddio ar drafodaeth breifat os dymunent.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y 924 preswylydd a oedd wedi methu hunan-weini yn yr hybiau. Esboniodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod cyfran sylweddol o breswylwyr oedd yn medru hunan-weini a chawsant eu cefnogi gan staff Hyb Cymunedol. Mae hefyd angen sicrhau fod cyflenwi gwasanaethau digidol yn glir ac yn rhwydd i breswylwyr eu defnyddio. Cytunodd y Swyddog i roi manylion i'r Pwyllgor am y cymorth a roddwyd ar gyfer y preswylwyr hynny na fedrai hunan-weini.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at breswylwyr oedd yn byw tu allan i ganol trefi ac yn methu teithio i'r hybiau a holodd am bosibilrwydd cyflwyno system lle gallai staff Hyb Cymunedol gysylltu â'r preswylwyr hynny pan fo angen. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid eu bod yn edrych ar ffyrdd i ddatblygu'r dull hyb a chytunodd i ymchwilio'r opsiwn gyda'r tîm, tra hefyd yn rhoi ystyriaeth i faterion cyfrinachedd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed cyllid ac ehangu nifer y dyddiau yr oedd rhai hybiau yn gweithredu, eglurodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod y cyllid yn ymwneud â'r timau ymateb ardal oedd yn gweithredu yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig a gall y cyllid hwn ddod i ben ym mis Mawrth 2022 ond na fyddai'n effeithio ar yr Hybiau Cymunedol. Yng nghyswllt ehangu dyddiau gweithredu ar gyfer hybiau yn y Blaenau, Cwm a Sefydliad Llanhiledd, roeddent yn monitro'r nifer oedd yn mynd i mewn i'r adeiladau ac yn adolygu'r galw yn yr ardaloedd i edrych ar sut i drin hyn o fewn adnoddau staff presennol. Dywedodd y Swyddog y byddai'n sicrhau y caiff dyddiau gweithredu Hybiau Cymunedol yn cael eu gweithredu'n glir i breswylwyr.<br><br>Teimlai Aelod y dylid rhannu arfer da ymysg Hybiau Cymunedol o fewn Blaenau Gwent. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid wrth yr Aelodau fod staff wedi bod yn rhagweithiol iawn ac wedi creu rhwydwaith cryf lle maent yn rhannu gwybodaeth i ddatblygu lefel o gysondeb yn yr holl hybiau.<br><br>Credai'r Aelod y byddai'n fuddiol i aelod o'r tîm i fynychu'r Pwyllgor Craffu i |

| | |
|---|---|
| | gael mwy o fanylion. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y gellid trefnu sesiwn wybodaeth rywbryd yn y dyfodol i Aelodau gael gwell dirnadaeth o rai o'r materion sy'n cael eu trin.<br><br>Ymatebodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid i gwestiynau Aelod. Yng nghyswllt y cynnydd yn nifer sy'n defnyddio'r hybiau, dywedodd fod y tîm yn medru yn rhwydd gefnogi'r nifer o breswylwyr sy'n ymweld â'r hybiau. Mae'r Swyddog yn edrych ar dimau ardal i sicrhau fod gorchudd addas ar draws yr hybiau, mae hyn yn cynnwys swyddogion a fedrai gamu i mewn am gyfnodau o absenoldeb salwch neu wyliau blynyddol.<br><br>Dywedodd y Swyddog na wyddai am unrhyw gwynion yn ymwneud â chyswllt gyda'r hybiau, fodd bynnag cafwyd adborth gan breswylwyr am sut yr oedd y cyswllt wedi eu helpu gyda phroblemau a chwestiynau. Roedd adborth Aelodau wedi cynnwys amserlen a marchnata.<br><br>Yng nghyswllt gwell cysylltiad rhwng y cyhoedd a'r cyngor, teimlai'r Swyddog fod yr hybiau yn cynnwys ystod eang o drafodaethau wyneb i wyneb i gefnogi preswylwyr i ryngweithio gyda'r Cyngor a chanfod eu ffordd drwy faterion penodol.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod wedi atgyfeirio preswylwyr i'r Hyb Cymunedol yn ei hardal ac iddi gael adborth ei fod yn wasanaeth gwych gyda staff gwybodus a theimlai ei bod yn bwysig trosglwyddo'r sylwadau hyn i'r holl dîm a helpodd i ddatblygu'r gwasanaeth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn ar adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau yn ystyried a rhoi sylwadau ar ddiweddariad cynnydd chwarter 2 ar y Strategaeth Fasnachol, cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol. |

| Item ID | 5710 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Adolygu Canol-blwyddyn Rheoli Trysorlys - 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar y gweithgaredd Rheoli Trysorlys a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y buddsoddiadau tymor byr a wnaed, esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai'r holl fenthyciadau unigol wedi bod yn gyfanswm o £692,000,000, fodd bynnag ni fyddai gan y Cyngor y swm hwnnw o fuddsoddiad ar unrhyw un amser ond gallai fod wedi bod â 20 benthyciad ar £5 miliwn yr un am gyfnodau byr. Esboniodd ei bod yn fwy manteisiol i fenthyca am dymor byr nag i fenthyca ar gyfer y tymor hir oherwydd lefel y cyfraddau llog yn y farchnad ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at y sefyllfa trysorlys fel ar 30 Medi 2021. Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y tabl yn dangos gostyngiad gan fod lefelau benthyca wedi gostwng oherwydd fod y Cyngor wedi benthyca llai ar 30 Medi 2021 o gymharu â 31 March 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef bod Aelodau'n craffu ar y gweithgaredd rheoli trysorlys yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 ac ni roddodd sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. |

| Item ID | 5711 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Cynnydd Contractau dros £500k |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a gyflwynwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar gynnydd prosiectau cyfalaf dros £500,000 mewn cost a, lle'n briodol, i geisio'r gymeradwyaeth angenrheidiol sydd ei hangen dan y Rheolau Gweithdrefnol Gwariant i wariant ychwanegol ar brosiect neilltuol.<br><br>Siaradodd Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod am waith ar y Bwa Mawr, Heol y Gwaith Dur, Glynebwy. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod gwaith i ddechrau yn y dyfodol agos ac y byddai wedyn yn dod yn gynllun byw dros £500,000 i'w adrodd i'r Pwyllgor Craffu.<br><br>Gofynnodd Aelod am gynnydd ar ddyraniad cyllid i ailgynllunio'r cyffordd ym Mhyllau Bedwellte. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol nad oedd hyn eto yn gynllun wedi ei gontractio i adrodd arno. Derbyniwyd arian dichonolrwydd gan Lywodraeth Cymru i edrych ar yr hyn y gellid ei wneud yn y gyffordd ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn y cyllid hwnnw i'r flwyddyn nesaf i symud ymlaen ar y cynllun hwnnw.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn yr wybodaeth a gynhwysir o fewn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 5712 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 4 Chwefror 2022 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y cafodd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol y bwriedid ei gynnal ar 4 Chwefror 2022 wedi ei ail-drefnu ac y'i cynhelir yn |

| | |
|---|---|
| | awr ar 23 Chwefror 2022.<br><br>Dywedwyd wrth Aelodau hefyd y cafodd yr adroddiad Gwrthderfysgaeth – Dyletswyddau Sianel ac Ymryson a'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg eu symud i gylch nesaf y Pwyllgor ac yn eu lle byddai Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23 a'r Adolygiad Strategaeth Cyfalaf gan y cafodd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol y bwriedid ei gynnal ym Mawrth 2022 ei ganslo.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar gyfer y cyfarfod ar 23 Chwefror 2022 yn ystyried yr adroddiadau dilynol:<br><br>• Cyd-adroddiad Cyllid a Pherfformiad<br>• Archwiliad Coffa Cymru<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23<br>• Adolygiad Strategaeth Gofal |

| Item ID | 5715 |
|---|---|
| Item Title | Cynigion Model Darpariaeth CCTV |
| Summary | Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid sy'n rhoi diweddariad ar yr adolygiad o'r swyddogaeth CCTV a'r cynigion ar gyfer gwell model cyflenwi gwasanaeth.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at broblemau cysylltedd yn ei ardal a'r angen am fwy o gamerâu. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod yr adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r seilwaith presennol, byddai adolygiad parhaus ar leoliad camerâu. dywedodd y byddai camerâu cudd yn rhan o drafodaeth ehangach am CCTV.<br><br>Cododd Aelod bryderon am ddiogelwch y cyhoedd. Teimlai nad oedd y cynnig hwn yn becyn llawn ac nad oedd yn rhoi monitro byw ar gamerâu a bod angen mwy o gamerâu ym mhob ward gan fod ymddygiad |

| | |
|---|---|
| | gwrthgymdeithasol yn broblem ym Mlaenau Gwent a theimlai y dylid dod â darpariaeth CCTV yn ôl i fod yn wasanaeth mewnol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid na chynhwysir monitro byw ar gamerâu, fodd bynnag mae'r model yn cynnwys sefyllfa well ar fynediad i a darpariaeth lluniau. Dywedodd fod Heddlu Gwent yn cefnogi'r gwelliannau arfaethedig gan bod darpariaeth bresennol y gwasanaeth CCTV yn brin o'r disgwyl a bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen i ddarparu model gwasanaeth gwell sy'n bwrpasol ar gyfer Blaenau Gwent.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r model arfaethedig yn cynnig gwelliannau clir ar lefel bresennol darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Credai Aelod nad oedd y system bresennol yn addas i'r diben ac y byddai'r symud i ddatblygu model darpariaeth gwasanaeth partner a chytundeb lefel gwasanaeth yn fanteisiol a'r cam cyntaf i wella'r system.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am ddiweddariad cynnydd, dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y byddid yn rhoi adolygiadau cyson ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol:<br>i. yn nodi'r cynnydd a wnaed fel rhan o'r adolygiad, rhoi sylwadau ac yn<br>ii. cefnogi'r gwelliannau arfaethedig a'r symudiad i ddatblygu model cyflenwi gwasanaeth partner a chytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer y swyddogaeth CCTV cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ei gymeradwyo. |